# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Oaks**

**Heol Llanidloes**
**Y Drenewydd**
**SY16 1HL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/11/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Oaks

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | The Oaks (Newtown Ltd.) |
| Lleoedd cofrestredig | 73 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Rhagfyr 2021 a 20 Ionawr 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth ar y cyfan, ond byddai llawer yn hoffi gweld newidiadau er mwyn gwella ansawdd eu bywyd, yn enwedig mewn perthynas â chael cynnig mwy o reolaeth dros y ffordd y caiff gofal a chymorth eu darparu a sut y maent yn treulio eu hamser. Mae safbwyntiau'r perthnasau yn amrywio a chafwyd sylwadau cadarnhaol a negyddol am ansawdd y gwasanaeth.

Mae systemau cofnodion gofal ar waith ond nid ydynt bob amser yn cael eu cwblhau'n llawn. Nid ydynt yn dangos tystiolaeth o sut y caiff pobl eu cynnwys yn yr asesiadau, y gwaith cynllunio gofal na'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Ni ddarperir gweithgareddau, a dywed y bobl wrthym eu bod wedi diflasu. Ni chaiff anghenion gofal y bobl bob amser eu diwallu, ac mae angen gwelliannau sylweddol er mwyn sicrhau y gwrandewir ar y bobl ac y cânt eu cefnogi i gael ansawdd bywyd digonol.

Mae'r adeiladau wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, a chynigir cyfleoedd i'r bobl bersonoli eu hystafelloedd. Gwnaed gwelliannau i'r arferion rheoli heintiau ac mae cynlluniau yn yr arfaeth i wella'r amgylchedd ymhellach i bobl gyda dementia.

Mae angen gwelliannau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli a'i oruchwylio. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y caiff y staff eu recriwtio, eu cefnogi a'u hyfforddi. Nid yw'r archwiliadau mewnol yn nodi'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn na'r materion y cafodd y darparwr wybod amdanynt gan asiantaethau proffesiynol eraill. Nid oes mesurau ar waith i gofnodi ac adolygu cwynion, achosion diogelu a phryderon er mwyn lleihau'r risg y byddant yn digwydd eto a gwella ansawdd y gwasanaeth.


Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r bobl yn fodlon ar y gwasanaeth ar y cyfan ond yn dweud wrthym y gellid gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff y gofal a'r cymorth eu cynnig, y bwyd a'r diffyg o ran pethau i'w gwneud. Mae safbwyntiau'r perthnasau yn amrywio a chafwyd sylwadau cadarnhaol a negyddol am y gwasanaeth.

Dywed y bobl wrthym eu bod wedi diflasu a "*Nothing to do all day*." Nid yw'r bobl yn cael eitemau o ddiddordeb na chysur. Mae'r teledu ymlaen yn yr ardaloedd cymunedol, ond nid oes llawer o'r bobl yn ei wylio, gyda phobl yn cysgu neu wedi ymddieithrio. Dywed y perthnasau wrthym y dylai'r cyflogwr *"Employ someone to do activities*" ac ar gyfer y bobl sy'n aros yn eu hystafell "*Just someone to spend time with (the person)."* Ni chaiff gweithgareddau eu darparu ar hyn o bryd ond dywed yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod yn bwriadu recriwtio staff i ymgymryd â hyn. Gan mai'r trefnydd gweithgareddau sy'n cynnal y cyfarfodydd i breswylwyr, ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd o'r fath ers i'r trefnydd olaf adael. Mae'r cofnodion o'r cyfarfodydd yn dangos bod y bobl wedi gofyn am gael gweld y rheolwr yn breifat, ond nid oes unrhyw dystiolaeth fod y rheolwr wedi gwneud hynny.

Mae nifer sylweddol o'r bobl yn treulio eu hamser yn eu hystafelloedd ar eu pen eu hunain. Mae rhai o'r bobl yn gwneud hynny o ganlyniad i'w hanghenion, neu'n dewis gwneud hynny, ond mae eraill yn gwneud hynny gan nad oes cyfarpar arbenigol ar gael iddynt neu nad ydynt yn cael cynnig y cyfle i godi neu'n cael eu hannog i wneud hynny. Dywedodd perthynas wrthym nad yw'r staff bob amser yn "*Encourage residents to get out of bed*." Yn y bore, ac yn y prynhawn, caiff y bobl eu gadael mewn tywyllwch yn eu hystafelloedd, gyda rhai ohonynt mewn tawelwch, cyn i'r staff agor neu gau'r llenni.

Nid yw'r cofnodion gofal bob amser yn cael eu cwblhau i gynnwys gwybodaeth bersonol am y bobl er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn, eu bod yn gyfredol a'u bod yn adlewyrchu anghenion y bobl. Nid yw'r staff yn cael eu harwain yn effeithiol er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion y bobl mewn modd amserol sy'n hyrwyddo eu llesiant a'u lles.

Mae barn y bobl am y bwyd yn amrywio. Dywedodd rhai ohonynt wrthym eu bod yn ei hoffi a dywedodd eraill y byddent yn hoffi gweld newidiadau ar y fwydlen ond nad ydynt yn teimlo y gallent ddweud hynny wrth unrhyw un. Mae angen gwella'r ffordd y caiff y bobl eu cefnogi yn ystod prydau er mwyn sicrhau y caiff cymorth ei ddarparu'n gyson yn unol ag arferion da. Nid yw'r staff bob amser yn eistedd gyda'r bobl, yn cynnig cymorth mewn modd amserol nac yn sicrhau bod y bwyd y mae'r bobl yn ei fwyta yn boeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd gennym fod y prosesau asesu cyn derbyn yn amrywio, ac nad oedd pob cofnod yn cael ei gwblhau. Gwnaethom roi gwybod i'r darparwr fod angen iddo weithredu i ymdrin â hyn. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod yr asesiadau wedi'u cwblhau cyn i'r bobl symud i'r cartref, ond nid oedd tystiolaeth yn dangos i ba raddau y cânt eu cynnwys yn y broses hon.

Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd garedig a phroffesiynol. Mae'r bobl yn canmol y staff. Mae'r sylwadau yn cynnwys "*Staff very good*" a "*Very helpful.*" Dywed y perthnasau wrthym fod y staff yn "*Wonderful, hardworking, so friendly,"* "*XX gets support from staff helping with needs and keeping safe*" a "*Well cared for*" a "*Gets on with staff*." Dywed y perthnasau wrthym hefyd "*Some staff can't communicate with residents*" a "*Some staff just do the minimum"* a *"Manager needs to be more visual. And manage."* Nid yw'r bobl bob amser yn gallu codi ar amseroedd o'u dewis ac mae'n rhaid iddynt aros am gymorth gan y staff. Nid yw'r bobl bob amser yn cael cynnig y cyfle i dreulio amser yn y lolfa gymunedol nac mewn cadair yn eu hystafell. Dywed y staff wrthym fod yn rhaid i'r bobl y mae angen cymorth dau aelod o'r staff arnynt aros i gael cymorth i godi. Ni chaiff llenni'r ystafelloedd gwely eu hagor na'u cau ar amseroedd priodol ac mae'r bobl yn treulio amser yn eistedd yn y tywyllwch.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom hysbysu'r darparwr fod angen gwneud gwelliannau i'r broses cynllunio gofal. Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd gennym nad yw'r cofnodion yn dangos bod y bobl wedi cael eu cynnwys yn y gwaith asesu na'r gwaith cynllunio gofal nac wrth drafod sut yr hoffent i'r gofal a'r cymorth gael eu darparu. Nid yw'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn gallu cofio bod unrhyw un wedi gofyn iddynt sut yr hoffent gael eu gofal a'u cymorth. Nid oes cynlluniau gofal sy'n hysbysu'r staff am y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ar waith. Ni chaiff y cofnodion bob amser eu cwblhau, yn enwedig mewn perthynas â hanes bywyd y bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau a'r meysydd a fyddai'n galluogi'r staff gofal i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nid oes bob amser ddigon o ddyfeisiau electronig a ddelir â llaw sy'n gweithio i'r staff gwblhau'r cofnodion gofal yn brydlon. Gwelsom fod clychau galw a diodydd allan o gyrraedd y bobl. Clywsom larymau yn canu ar nifer o fatresi pwyso ond ni welsom unrhyw aelodau o'r staff yn ymdrin â hyn. Nid yw'r bobl bob amser yn gallu gweld gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol yn brydlon fel y bo angen.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae aelodau'r eglwys leol yn ymweld â'r cartref i weld y bobl ac i gynnal gwasanaethau. Nid yw'r cartref yn cyflogi unrhyw un i helpu'r bobl i ymgymryd â gweithgareddau. Nid yw'r bobl cael eitemau i ddiddanu eu hunain fel llyfrau, papurau, blychau chwilota, teganau meddal neu eitemau i ddarparu cysur iddynt. Mae'r bobl yn eistedd yn y lolfeydd neu yn eu hystafelloedd eu hunain ac er bod y teledu ymlaen, mae llawer yn cysgu neu wedi ymddieithrio. Dywed y bobl wrthym eu bod wedi diflasu a "*There is nothing to do*," "*Just watch TV*," "*We just sit here*" ac "*It makes me feel not good*" (nad oes dim byd i'w wneud). Dywed perthynas wrthym "*XXX says they have done nothing all day which is a concern*." Dywed yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod wedi cael cyngor proffesiynol ynghylch sut i wella'r sefyllfa i bobl sy'n byw gyda dementia, ond ni wnaed unrhyw newidiadau eto.

Ni chawsom gyfle i edrych ar y prosesau rheoli meddyginiaeth yn fanwl. Gwnaethom edrych ar adroddiad Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sy'n nodi nifer sylweddol o faterion mewn perthynas â'r ffordd y caiff meddyginiaethau eu rheoli. Ni chafodd y materion hyn eu nodi mewn archwiliadau mewnol. Nid yw'r iPads sy'n hanfodol er mwyn defnyddio'r system rheoli meddyginiaethau electronig bob amser yn gweithio. O ganlyniad, gall rowndiau meddyginiaeth gymryd hyd at dair awr.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac mae'n cynnwys ystafelloedd sengl â chyfleusterau ensuite ac ardaloedd cymunedol wedi'u dodrefnu'n dda. Caiff y bobl eu cefnogi i bersonoli eu hystafelloedd. Dywed y bobl wrthym eu bod yn hoffi eu hystafelloedd. Mae'r sylwadau gan y perthnasau yn cynnwys, "*Rooms are warm and airy. The bistro area is great, and the garden is beautiful in the summe*r" a "*Modern with nice décor.*" Mae'r ardd ddiogel sydd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda yn boblogaidd gyda'r bobl, ond mae angen help ar lawer o'r bobl i'w chyrraedd, gan ymwelwyr neu aelodau o'r staff. Ni welsom unrhyw aelodau o'r staff yn helpu'r bobl i wneud hyn oherwydd pwysau gwaith. Dywed y staff wrthym mai anaml y bydd amser ganddynt i helpu'r bobl i wneud hyn. Dywed yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod yn aros am adroddiad gan arbenigwr dementia ynghylch sut i sicrhau bod y cartref yn fwy addas i bobl gyda dementia. Mae'r cofnodion yn dangos bod y cyfarpar a ddefnyddir yn y cartref yn cael ei archwilio a'i wasanaethu er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'r bobl a'r staff.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom roi gwybod i'r darparwr bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau er mwyn bodloni'r rheoliadau. Gwelsom fod y cartref yn lân ac yn daclus a bod y staff cadw tŷ yn gweithio'n galed i gynnal safon uchel. Dywed yr unigolyn cyfrifol wrthym y bydd cynwysyddion tywelion papur a sebon hylif yn cael eu gosod yn yr ystafelloedd ymolchi ensuite er mwyn i'r staff allu golchi eu dwylo. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn gartrefol ac yn lân. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom nad yw'r staff bob amser yn gwisgo masgiau wyneb yn gywir. Gwelsom aelodau o'r staff gofal ag ewinedd hir, gemwaith ar eu dwylo ac ewinedd â lliw arnynt yn groes i bolisïau a gweithdrefnau'r darparwr. Ymdriniodd yr unigolyn cyfrifol â hyn ar unwaith.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom hysbysu'r darparwr fod angen gwneud gwelliannau i'r safle. Roedd hyn yn cynnwys gosod sgriniau preifatrwydd ar ffenestri'r ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod, bod yn dryloyw ynghylch y systemau CCTV yn yr ardaloedd cymunedol a gwneud newidiadau i gefnogi annibyniaeth y bobl. Gwelsom fod blychau a hysbysiadau cof wedi cael eu gosod ar yr ystafelloedd gwely er mwyn i'r bobl allu dod o hyd i'w hystafelloedd nhw. Dywed y darparwr wrthym y caiff sgriniau preifatrwydd eu gosod ar ystafelloedd y llawr gwaelod. Mae'r canllaw i'r cartref bellach yn cyfeirio at y ffaith bod system CCTV ar waith y tu mewn i'r cartref. Nid yw'r arwyddion i hysbysu'r bobl a'r ymwelwyr am y system yn amlwg. Nid oedd unrhyw un o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r camerâu, a dim ond un o'r ymwelwyr oedd yn ymwybodol ohonynt. Dywed un o gyfarwyddwyr y cwmni wrthym nad yw'r deunydd CCTV yn cael ei fonitro ac mai dim ond unigolion cyfyngedig a all weld y deunydd hwnnw. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd ganddo y caiff arwyddion clir eu gosod er mwyn sicrhau bod y bobl yn ymwybodol o'r camerâu. Bu problemau parhaus o ran y ffaith nad yw'r system clychau galw yn gweithio. Rydym wedi cael sicrwydd y caiff y system ei harchwilio ddwywaith y dydd ac yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau ar unwaith.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Cafodd y canllaw i'r gwasanaeth ei adolygu a'i ddiwygio er mwyn rhoi gwybodaeth i'r bobl a'u perthnasau am y gwasanaethau sydd ar gael er mwyn iddynt allu gwneud dewis gwybodus.

Nid yw'r cartref yn cael ei reoli'n effeithiol er budd i'r bobl. Rydym wedi cael sylwadau amrywiol am y ffordd y caiff y cartref ei rheoli, gan gynnwys "*Amazing place*" "*Good vibes when I visit"* ac "*Always made welcome*" a bod y rheolwr yn "*Elusive*" a "*Poor communication with families."* Dywed llawer o'r staff eu bod yn teimlo bod y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn eu cefnogi. Maent yn cael sesiynau goruchwylio, ond nid mor aml ag sy'n ofynnol. Mae rhai o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol. Dywed y staff wrthym eu bod yn cael hyfforddiant, ond nid yw'r cofnodion yn dangos bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol. Ni welsom dystiolaeth fod aelodau newydd o staff yn cwblhau hyfforddiant sefydlu na bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn cael eu hadolygu ar gyfnodau rheolaidd wedi'u pennu gan y darparwr. Nid yw'r cofnodion yn cynnwys yr hyfforddiant clinigol sydd ar gael na'r hyfforddiant clinigol a gwblhawyd gan y nyrsys cofrestredig. Mae staff asiantaeth yn cwblhau hyfforddiant y tu allan i'r cartref ac maent wedi cwblhau nifer o gyrsiau ar yr un diwrnod. Ni chafodd hyn ei nodi gan y rheolwr nac mewn archwiliadau mewnol er gwaethaf problemau diweddar mewn perthynas â sgiliau a gwybodaeth nyrsys cofrestredig asiantaeth.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos sut yr ymchwilir i bryderon, cwynion neu faterion diogel na sut y ceir tystiolaeth er mwyn dod i gasgliad. Mae'r cofnodion yn anghyflawn ac nid ydynt yn cynnwys gwerthusiad er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto. Ni chaiff Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) bob amser ei hysbysu am ddigwyddiadau yn y cartref mewn modd amserol. Nid oes trefniadau trosglwyddo ffurfiol ar ddechrau a diwedd pob shifft ac mae hyn yn effeithio ar barhad ac ansawdd y gofal. Gwelsom nad yw'r llyfr 'cyfathrebu' ar y llawr nyrsio yn cael ei gwblhau'n gywir. Ni chafodd hyn ei nodi gan y rheolwr drwy'r archwiliadau mewnol. Mae'r diffyg rheolaeth effeithiol yn cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom hysbysu'r darparwr fod angen gweithredu er mwyn sicrhau y caiff staff eu recriwtio'n unol â'r rheoliadau. Gwelsom rai gwelliannau. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod gan y staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac mae'r cofnodion yn cynnwys mwy o wybodaeth. Fodd bynnag, nid yw pob gwiriad yn cael ei gynnal, ac ni chafodd y ffurflen gais ei diwygio i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Mae'r asesiadau risg mewn perthynas ag aelodau o staff sy'n gweithio cyn cael gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn annigonol. Dywed yr unigolyn cyfrifol wrthym yr ymdriniwyd â'r materion hyn ers hynny. Nid oes cofnodion ar gyfer staff asiantaeth ar gael i'r person â chyfrifoldeb. Felly, ni wnaed gwiriadau i ddilysu

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

manylion adnabod y staff asiantaeth. Mae hyn yn cael effaith bosibl ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd digon o staff i ddiwallu anghenion y bobl mewn modd amserol, gan nodi ein bod yn disgwyl iddo weithredu. Gwelsom fod y staff gofal yn brysur ond er gwaethaf hynny, eu bod yn rhoi cymorth i'r bobl mewn ffordd garedig, barchus a phroffesiynol. Nid yw'r bobl yn gallu codi ar amseroedd o'u dewis ac mae'n rhaid iddynt aros i gael gofal a chymorth. Dywed y staff wrthym fod y bobl y mae angen cymorth dau aelod o'r staff arnynt fel arfer yn gorfod aros yn hirach cyn codi, ond bod y staff "*Try to get most people up by dinner time*." Ar hyn o bryd, nid yw'r darparwr yn cyflogi unrhyw nyrsys ac mae'n dibynnu ar staff asiantaeth. Nid yw hyn yn rhoi parhad gofal i'r bobl. Nid yw'r cartref yn cyflogi unrhyw un i helpu'r bobl i ymgymryd â gweithgareddau yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Yn dilyn yr arolygiad, mae'r darparwr wedi dweud wrthym am y mesurau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r mater staffio.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom hysbysu'r darparwr fod angen gwneud gwelliannau i'r broses o oruchwylio'r gwasanaeth. Gwnaethom ofyn i unrhyw arolygon a gynhaliwyd yn ystod 2022 i ofyn am farn y bobl, eu perthnasau, y staff a gweithwyr proffesiynol gael eu casglu ynghyd. Ni wnaed hynny. Mae'r cofnodion o bryderon, cwynion ac achosion diogelu yn anghyflawn ac ni chânt eu gwerthuso er mwyn lleihau'r risg y byddant yn digwydd eto. Ni chafodd y materion difrifol a nodwyd gan AGC a chan ein cydweithwyr proffesiynol eu nodi gan y rheolwr na'r unigolyn cyfrifol drwy'r archwiliadau mewnol. Dangosodd trafodaethau â'r staff gan AGC a'n cydweithwyr proffesiynol nad oes gan y staff, yn enwedig y staff nyrsio, ddigon o wybodaeth am anghenion y bobl. Mae'r llyfr 'cyfathrebu' ar y llawr nyrsio yn cynnwys sawl diwrnod lle na wnaed llawer o gofnodion, os o gwbl, mewn perthynas â throsglwyddo neu'r materion y mae angen gweithredu yn eu cylch. Ni chafodd hyn ei nodi mewn gwiriadau neu archwiliadau mewnol. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y cartref yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y bobl, yn eu cadw'n ddiogel ac sydd o fudd iddynt. | Newydd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn cael eu cwblhau ac nid ydynt yn cynnwys tystiolaeth bod y bobl yn cael eu cynnwys wrth bennu eu hanghenion gofal na sut y cânt eu diwallu. | Heb Gyflawni |
| 35 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau y caiff y staff eu recriwtio'n unol â'r rheoliadau. | Heb Gyflawni |
| 34 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflogi nifer digonol o staff sy'n meddu ar | Heb Gyflawni |

oddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | | |
|---|---|---|
| | gymwysterau addas, gan gynnwys nyrsys cofrestredig. | |
| 80 | Nid yw'r darparwr yn monitro, yn adolygu nac yn goruchwylio ansawdd y gwasanaeth yn effeithiol. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Nid oes mesurau ar waith i sicrhau bod y safle yn diwallu anghenion y bobl ac yn hyrwyddo annibyniaeth. | Cyflawnwyd |
| 56 | Nid oes mesurau bob amser ar waith i sicrhau arferion da o ran atal a rheoli heintiau. | Cyflawnwyd |
| 21 | Ni chaiff y bwydlenni eu harddangos ac ni chaiff dewisiadau bob amser eu cynnig yn ystod amser prydau ac nid oes bob amser ddigon o fwyd ar bob uned. Mae'r cyfnod rhwng amser brecwast ac amser cinio yn fyr iawn i rai o'r bobl. | Cyflawnwyd |
| 14 | Nid oes asesiadau cyn derbyn cynhwysfawr bob amser yn cael eu cwblhau gan gynnwys yr unigolyn neu ei berthnasau cyn iddo symud i mewn i'r cartref. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi